

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2021.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Awst 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn y ffioedd ar gyfer profion golwg y GIG.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y darpariaethau o dan reoliad 2 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2021 yn cael effaith ôl-weithredol o 1 Ebrill 2021. Caniateir hyn yn benodol o dan adran 76(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae adrannau 71, 76(9) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer cynnydd yn ffioedd profion golwg y GIG ac i ddarparu bod y cynnydd yn cael effaith ôl-weithredol.

Bydd y Rheoliadau'n dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Caiff ffi profion golwg y GIG a'r lwfansau cysylltiedig eu cynyddu'n flynyddol ar ôl trafodaethau rhwng NHS England & Improvement (ar ran yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr) a'r Pwyllgor Adolygu Ffioedd Optometrïg. Ar gyfer 2021/22 cytunwyd ar gynnydd o 1.9%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mabwysiadwyd dull cyffredin gyda Lloegr lle mae'r ffi yn cael ei chynyddu yn ôl yr un gyfradd ganrannol yng Nghymru. Mae'r ffi yn daladwy i optometrydd neu ymarferydd meddygol offthalmig sydd wedi cynnal prawf golwg ar gyfer un o'r categorïau o bobl sy'n gymwys i'w dderbyn o dan y GIG.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cynyddu ffioedd profion golwg y GIG 1.9% o 1 Ebrill 2021.

5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal gan mai cynydd ffioedd profion golwg y GIG y mae'r ddeddfwriaeth hon.

Mae NHS England & Improvement yn cynnal trafodaethau'n flynyddol gyda'r Pwyllgor Adolygu Ffioedd Optometrig ynghylch pennu Ffioedd a Lwfansau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol ac mae'n gwneud argymhelliad i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor Adolygu Ffioedd Optometrig yn cynnwys Cymdeithas yr Optometryddion, Ffederasiwn yr Optegwyr, Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain a Chymdeithas Feddygol Prydain.

Mae Optometreg Cymru, cynrychiolwyr y proffesiwn yng Nghymru, yn disgwyl i'r cynnydd yn y ffioedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, adlewyrchu'r rhai yn Lloegr. Ymgynghorwyd yn anffurfiol ag Optometreg Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, sy'n gwneud y taliadau ar ran y Byrddau Iechyd Lleol i'r proffesiwn, ar y cynnydd arfaethedig.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn gan mai cynyddu ffi statudol yn unig y mae.